Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	28 Chwefror 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Cynllun Cyfalaf 2022/23 – 2025/26 ac Argymhellion Bwrdd y Gyllideb – Cyfalaf

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar elfen 2022/23 y Cynllun Cyfalaf. Hefyd ynghlwm mae argymhellion y Bwrdd Cyllideb - Cynigion Cyfalaf a argymhellir ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu Cynllun Cyfalaf diwygiedig i'r aelodau gan gynnwys diweddariad ar brosiectau mawr a'r cynllun corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys Adroddiad Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Mae'n darparu trosolwg lefel uchel, byr a chynhwysfawr i'r holl aelodau o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Atodiadau canlynol wedi'u cynnwys:

- Atodiad 1: Crynodeb o gyllid y cynllun cyfalaf
- Atodiad 2: Crynodeb o'r cynllun cyfalaf fesul gwasanaeth
- Atodiad 3: Manylion amcangyfrifon y cynllun
- Atodiad 4: Diweddariad ar brosiectau cyfalaf mawr
- Atodiad 5: Manylion yr argymhellion gan y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf
- Atodiad 6: Cynigion Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo
- Atodiad 7: Adroddiad Strategaeth Gyfalaf

- Atodiad 8 - 15: Adroddiad Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob prosiect wedi'i ystyried gan y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n nodi sefyllfa ddiweddaraf elfen 2022/23 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ynghylch y prosiectau mawr.

3.2 Bod Aelodau yn cefnogi argymhelliad y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf fel y manylir yn Atodiad 5 ac sydd wedi ei grynhoi yn Atodiad 6.

3.3 Bod Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2023/24.

3.4 Bod aelodau'n cymeradwyo Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2023/24 fel y manylir yn Atodiad 7.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 **Gwariant Cyfalaf 2022/23**

Y tro diwethaf i'r Cynllun Cyfalaf llawn gael ei adrodd i'r Cyngor oedd ym mis Chwefror 2023. Cyflwynir diweddariadau i'r Cabinet yn fisol. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £55.1miliwn.

4.2 **Prosiectau o Bwys**

Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau canlynol:

- Ailddatblygu Marchnad y Frenhines, y Rhyl
- Ail-fodelu Gwasanaethau Gwastraff
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Band B

4.3 **Cynllun Corfforaethol**

Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd hwn yn un uchelgeisiol iawn ac mae arno angen swm sylweddol o adnoddau ariannol i lwyddo. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau eisoes wedi dechrau a'r adnoddau wedi'u nodi er mwyn eu cyflawni. Mae'r enghreifftiau o ymrwymiadau mawr yn cynnwys buddsoddi mewn cynlluniau priffyrdd a chynlluniau llifogydd, adeiladau ysgolion a rhoi ein Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol ar waith.

Ers y Cynllun Corfforaethol diwethaf mae proses gyllidebol gadarn wedi'i sefydlu ynghyd â dull newydd ar gyfer rheoli ein gwariant cyfalaf, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau yn gallu cyflwyno ceisiadau am ragor o gyllid fel rhan o broses flynyddol y gyllideb. Bydd hyn yn gymorth i atal dyrannu cyllid cyn bod angen ac i helpu i flaenoriaethu ar draws y Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol hynod ansefydlog oherwydd pwysau chwyddiant a'r galw am gyllid sydd ymhell y tu hwnt i'r lefel o gyllid a ragwelir. Fe all hyn wedyn effeithio ar argaeledd cyllid. Bydd y strategaeth arfaethedig yn caniatáu i'r Cyngor nodi adnoddau yn ôl yr angen ac o fewn y cyfyngiadau ariannol.

4.4 **Derbyniadau Cyfalaf**

Am ran o'i gyllid mae'r Cynllun Cyfalaf yn dibynnu ar dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau gros hynny a gyflawnwyd yn 2022/23. Yn ogystal â hynny, mae nifer o warediadau posibl hefyd yn cael eu datblygu.

	2022/23 £000
Gwaredu ffordd bengaead yn Ystâd Ddiwydiannol Colomendy	**18**
Fferm Geufron Bach	**500**
Cyfanswm	**518**

4.5 **Dangosyddion Darbodus 2022/23**

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn nodi Dangosyddion Darbodus sy'n pennu terfynau darbodus ar ei fenthyca. Mae dyled y Cyngor yn £273.7 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn o fewn y Ffin Weithredol (£315 miliwn) a Therfyn Awdurdodedig (£320 miliwn) ac mae'n llai na'r rhagolwg Gofyniad Cyllido Cyfalaf (£321.6 miliwn). Mae hyn yn golygu bod y

Cyngor yn cadw at y Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf ac nid yw'n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Mae'r gymhareb costau ariannu i'r llif refeniw net ar gyfer 2022/23 yn 6.83%. Mae'r gymhareb hon yn arwydd o fforddiadwyedd ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei angen i dalu costau benthyca.

4.6 **Argymhellion o'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf**

Mae'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf wedi adolygu ceisiadau cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2023/24 ymlaen. Manylir ar y rhain yn Atodiad 5 ac fe geir crynodeb yn Atodiad 6.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae prosiectau wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Goblygiadau Cost

Mae'n angenrheidiol sicrhau bod y Cynllun Cyfalaf yn cael ei ariannu'n llawn gan fod yn rhaid i unrhyw gost ychwanegol, sy'n fwy na chyfanswm y cyllid sydd ar gael, gael ei ariannu o gyllidebau refeniw.

6.2 Goblygiadau Staffio/TGCh/Gofod Swyddfa

Mae'n ofynnol llenwi ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a thrafod y goblygiadau penodol yn ystod y cam hwnnw.

6.3 Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf (Grŵp Craffu Cyfalaf o Ebrill). Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau

tunelli carbon perthnasol cyn ac ar ôl y prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn cynyddu, lleihau neu ddim yn cael effaith ar allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiadau 8 i 15.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae prosiectau'n cael eu paratoi ac yna'n cael eu monitro mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau nes iddo dderbyn cyllid llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a chael ei drafod gyda'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf.

Mae angen i Noddwyr Prosiectau arfer rheolaeth dynn dros eu gwariant cyfalaf i sicrhau bod y prosiectau'n gallu aros o fewn cyllidebau.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Risgiau posibl yw cynlluniau'n methu â gwneud cynnydd, colli grant ac amhariad ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio pe na bai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud, a gallai hynny arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf yn adolygu'r holl gynlluniau sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadrodd yn barhaus bob mis.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.